10. SWNLLYD A'R IEIR
(Gwanwyn)

Cododd y meistr oddi wrth y bwrdd a gwisgo'i gap. Roedd ar ei ffordd allan i weithio. 'Ar wyliadwriaeth, Swnllyd!' meddai wrth yr ast oedd wrth ei ochr. Â'i chynffon rhwng ei choesau, llusgodd Swnllyd ei hunan allan o'r gegin i'r buarth.

Roedd angen ci ar y meistr i warchod libart yr ieir, a Swnllyd gafodd ei dewis i wneud y gwaith. Ar y dechrau roedd yn hapus o gael swydd arbennig, ond erbyn hyn roedd wedi hen ddiflasu. Roedd cadw golwg ar yr ieir yn waith mor galed. Roeddent byth a beunydd mewn rhyw ffwdan neu'i gilydd yn achwyn ac yn ffraeo o hyd.

'Grr! Stopiwch hynna!' chwyrnodd ar griw o ieir oedd yn pigo'r ffens.

'Dos i ffwrdd. Ti'n difetha'n hwyl ni, Swnllyd,' meddai'r ieir yn bigog.

Byddent yn ei hateb yn wawdlyd dro ar ôl tro. Nid oeddent yn ddiolchgar o gwbl i Swnllyd am eu gwarchod. Petaent ond yn gwybod gymaint y dyheai Swnllyd am gael bod yn rhywle arall. Roedd yn brynhawn mor hyfryd, ac arogleuon ffres y gwanwyn ymhobman. O am gael bod yn rhydd, yn rasio trwy'r caeau.

Gydag ochenaid gorweddodd i lawr, â'i thrwyn rhwng ei phawennau. Yna'n sydyn, uwch clwcian yr ieir, clywodd lais.

'Helô 'na, Swnllyd. Rwyt ti'n edrych yn ddigalon.'

Pwy oedd yna tybed? Cododd Swnllyd ei phen, ac yno yn y goeden uwchben, roedd cwcw fawr dew'n rhythu arni.

'Grr!' chwyrnodd Swnllyd. Ac eithrio'r ieir y gwcw oedd y casaf o'r adar ganddi. Hen adar diog drygiog oeddent yn ei barn hi. Byth a beunydd yn mynd oddi amgylch gan ddodwy eu hwyau yn nythod adar eraill.

Ond doedd dim tycio ar y gwcw hon. 'Cwcw! Dwi'n siŵr byddet ti wrth dy fodd yn cael rhedeg trwy'r caeau.' Taflodd edrychiad ar Swnllyd gan wincio arni. 'Mae hyn yn gwcw o biti, ydi wir. Tithau'n gaeth yn fan hyn, yn gorfod gwarchod yr ieir drewllyd yma ar gwcw o brynhawn mor braf.'

'Dyna 'ngwaith i,' meddai Swnllyd. 'Er mwyn y meistr dwi'n gwneud hyn. Fe aiff â fi am dro gynted ag y daw adref.'

'Mae'n cymryd ei amser yn tydi?' meddai'r gwcw. 'Ond mae'n debyg y daw'n ei ôl pan fydd *o* awydd. Mae'n gwcw o feistr caled, ydi wir. Mae'r holl gŵn eraill yn cael tro o amgylch y caeau bob prynhawn.'

'Wyddwn i ddim,' meddai Swnllyd gan godi ei chlustiau.

'Wn i beth i'w wneud,' meddai'r gwcw'n llon. 'Dos di am dro ac fe wna innau warchod yr ieir. Does dim angen i'r meistr gael gwybod dim. Fe fydd o'n hapus. Fe fyddi di'n hapus. Bydd pob dim yn gwcw grêt! Iawn?'

Na. Gwyddai Swnllyd na fyddai'r meistr yn dymuno iddi ymddiried yn y gwcw i wneud gwaith mor bwysig. Ond roedd yn gynnig deniadol . . .

'Does dim rhaid iddo gael gwybod gwcw o ddim am hyn.' Roedd fel petai'r gwcw'n gwybod yn union beth oedd ar ei meddwl. 'Fe fyddi di'n ôl ymhell cyn iddo ddychwelyd. Cei roi dy groeso arferol iddo. Dos yn dy flaen! Pam wyt ti'n oedi? Fe wnaf i ofalu am bob gwcw o ddim!'

'O'r gorau,' meddai Swnllyd, ac i ffwrdd â hi, gan lamu tros giât y buarth i'r caeau gwyrdd yr ochr draw. Rhedodd a rhedodd, nes roedd hi allan o wynt. Yna cymerodd ennyd o orffwys o dan goeden.

Er iddi fwynhau ei hunan roedd arni hiraeth am ei meistr. Cododd, ac wedi ffroeni o amgylch y lle am ychydig, penderfynodd fynd adref.

'Does dim rhaid iddo gael gwybod dim am hyn,' cysurodd ei hunan.

Ond fedrai hi ddim llai na theimlo'n annifyr. Beth petai o'n amau rhywbeth? Byddai'n rhaid iddi sicrhau ei bod yn ymddwyn yn union fel arfer. Ond roedd ei chynffon yn llipa. Beth pe bai o'n sylwi nad oedd hi'n ysgwyd ei chynffon fel pob diwrnod arall?

Wrth iddi ddynesu at fuarth y fferm teimlai'n fwy annifyr. Roedd rhywbeth o'i le. Ffroenodd y ddaear. Oedd. Yn bendant. Gallai synhwyro arogl y gelyn yn y llwch. Ac roedd pobman mor dawel. Dim clwcian . . . dim fflapian . . . dim ffraeo . . .

'Popeth yn iawn draw'n fan yna?' meddai wrth redeg draw am libart yr ieir. Edrychodd dros y ffens. Roedd golwg erchyll ar y lle. Trychineb! Roedd twll yn y ffens. Plu ym mhobman. A dim iâr yn unman. Dechreuodd Swnllyd udo. O pam o pam yr oedd hi wedi ymddiried yn y gwcw gelwyddog yna? Pe bai hi heb wrando arni fyddai'r llwynog heb gael cyfle i ladd yr ieir.

Fu erioed cymaint o gywilydd nac ofn arni. Roedd ieir y meistr wedi cael eu bwyta, a byddai'r meistr yn dychwelyd unrhyw funud. Doedd ond un peth amdani. Byddai'n rhaid iddi redeg i ffwrdd.

Felly, am yr eildro'r diwrnod hwnnw, rhedodd Swnllyd i ffwrdd i'r caeau. Ond y tro hwn fyddai hi byth yn dychwelyd. Ymlaen ac ymlaen, fe redodd trwy un cae ar ôl y llall nes yr oedd mor flinedig a digalon fel y bu iddi ddisgyn yn llipa i'r llawr o dan lwyn a syrthio i gysgu.

Cafodd ei deffro gan lais y meistr. 'Swnllyd! Swnllyd!' Yr oedd wedi dod i chwilio amdani. Llamodd ei chalon. Yna cofiodd am y libart gwag. Byddai'n sicr o fod yn gandryll! Cymerodd gipolwg sydyn o'i chuddfan dan y llwyn a sylwi ei fod yn cario ffon ddigon peryglus ei golwg.

'Swnllyd! Swnllyd!' galwodd eto.

Yr oedd cywilydd arni. Yr oedd ofn arni. Ond roedd sŵn ei lais fel magned yn ei denu tuag ato. Wrth ei glywed, gwyddai na allai dreulio gweddill ei bywyd yn crwydro'r caeau heb ddim i'w wneud a heb neb i gyfarth arno. Roedd hi eisiau bod yn gi i'r meistr eto –

hyd yn oed os oedd hynny'n golygu cael ei churo.

Yn araf, daeth allan o'i chuddfan. Rhoddodd ei thrwyn rhwng ei phawennau a gwneud sŵn nadu.

Mewn amrantiad roedd o wrth ei hochr. Stiffiodd hithau, gan ddisgwyl clec y ffon ar ei chefn. Ond yn lle hynny teimlodd law garedig yn anwesu'i phen. Agorodd ei llygaid, ac er mawr syndod iddi, nid wyneb cas a welodd ond wyneb llawen. 'Gi bach uchel dy gyfarthiad,' meddai, 'dwi'n falch o dy gael yn ôl.'

Ond nid hwn oedd yr unig syrpreis iddi. Roedd yr ail yn disgwyl amdani yn ôl ar y fferm. Yno yr oedd libart yr ieir yn union fel y gadawodd ef. Wedi malu. Yn wag. Ac arogl llwynog arno. 'Dim i'w warchod yma,' meddai'r meistr yn addfwyn.

Ond roedd rhyw gynnwrf yng nghegin y tŷ. Hyd yn oed cyn i'r meistr roi'r allwedd yn y clo, clywodd Swnllyd y sŵn hyfryd. Ffwdanu . . . fflapian . . . ffraeo. Agorodd y drws – a hwrê! Fu Swnllyd erioed mor falch. Roedd ieir yn clwcian ym mhobman: ar y bwrdd, o dan y cadeiriau, ar ben y popty. Roedd un iâr dew yn gorwedd yn ei basged hyd yn oed!

'Ble fuest ti, Swnllyd?' meddai'r iâr dew. 'Petai'r meistr heb ddod adre mewn pryd i'n hachub byddai'r hen lwynog wedi'n bwyta.'

'Dim mwy na fyddech chi'n ei haeddu.' Bu bron i Swnllyd â chyfarth – ond peidiodd. Wedi'r cyfan, chafodd hi mo'r driniaeth a haeddai. Ac roedd hi'n wirioneddol falch fod yr ieir yn ddiogel.

'Hip hip hwrê i'r meistr!' cyfarthodd Swnllyd.

'Clwc-clwc hwrê! Clwc-clwc hwrê!' clwciodd yr ieir aflafar.

Yna safodd Swnllyd yn llonydd ac aeth pobman yn dawel.

'Mae'n arw gen i mod i wedi'ch gadael . . .'

'Mae'n arw gennym ninnau i ni fod mor gegog . . . '

A dyna ni. Pawb yn ddiogel. Pawb yn edifar. Gydag ochenaid o ryddhad llamodd yr ast i'w basged gan roi llyfiad hoffus i'r iâr dew ar ei phig.

HYD: 7–8 munud

NEGES: Mae Duw'n dad sy'n maddau.

DARLLEN: Luc 15: 11–24